**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 25ain Gorffennaf, 2017 at 9.30 am**

**PRESENT:** County Councillor S. Howarth (Chairman)
County Councillor L.Brown (Vice Chairman)

County Councillors: L.Dymock, P.Pavia and J.Pratt

Also in attendance County Councillor(s): A. Easson and V. Smith

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Wendy Barnard | Democratic Services Officer |
| Hazel Ilett | Scrutiny Manager |
| Richard Jones | Policy and Performance Officer |
| Sian Schofield | Management Information Officer |

**APOLOGIES:**

Councillors M.Groucutt, R. Harris and R. Edwards

1. **Datganiadau Buddiant**

Ni wnaed datganiadau buddiant.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

No members of the public were present.

3. **Adroddiad Perfformiad 2016/17**

**Casgliadau'r Pwyllgor:**
Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am gyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor.

Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth bellach er mwyn craffu'n effeithlon:

- Trefniadau i roi cyngor i aelodau teulu am ofal cyllid.
- Mesurau a gymerir i gefnogi gofalwyr.
- Faint o becynnau gofal yn y cartref a gafodd eu hymchwilio cyn opsiwn cartref preswyl.
- Dadansoddiad o niferoedd staffio, a
- Dadansoddiad o oedrannau (niferoedd a chanrannau) a'r rhesymau dros i unigolion fynd i ofal..

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys.

4. **Adroddiad y Rhaglen Waith**

**Cyd-destun:**
'Dull gweithredu wedi'i gynllunio' ar flaenraglen waith Craffu er mwyn cynyddu effeithlonrwydd a gwerth ychwanegol gweithgaredd craffu, gan sicrhau ffocws ar bynciau y brif flaenoriaeth i'r Cyngor a'r rhai sy'n adlewyrchu'r budd cyhoeddus.

**Materion Allweddol:**

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

## Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 25ain Gorffennaf, 2017 at 9.30 am

Cynhaliwyd cyfarfodydd trafod rhaglen waith rhwng Cadeirydd newydd y Pwyllgor Dethol a'r prif swyddog perthnasol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a phynciau a amlygwyd fel bod angen craffu yw::

Comisiynu Gwasanaethau Oedolion yn y Dyfodol - yn gysylltiedig â "Troi'r Byd a'i Ben i Lawr"
Pwysau Cyllideb o fewn gwasanaethau a dadansoddi gwariant
Datblygu Cymunedol a Llesiant
Strategaeth Cefnogi Pobl
Llesiant - Trafodaeth gyda Chymdeithas Tai Sir Fynwy ar y stoc bresennol a datblygu cartrefi newydd, cefnogaeth ar gyfer diwygio lles
Tai: (awgrwymwyd Medi 2017)

-  Porth Cymorth Tai
-  Polisi Digartrefedd Tywydd Oer
-  Protocol Argyfwng Tywydd Difrifol
-  Dileu Ffi Rheoli Llety dros Dro
-  Adroddiad Llety i'r Digartref (Dyfodol Lesau Preifat)
-  Asesiad o'r Farchnad Tai Leol
-  Cynllun Lesau Preifat Melin

Gwasanaethau Sipsiwn a Theithwyr
Strategaeth Atal Digartrefedd - dechrau 2018
Addasiadau i'r anabl ymhellach i'r cyllid ychwanegol ar gyfer 2017/18
Adroddiad Cwynion Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol

Cafodd yr eitemau dilynol eu dynodi ar gyfer cyd-graffu gyda'r Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc:

Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth - cyfrifoldeb y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 (Ionawr/Chwefror 2018)
Gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 (Hydref 2017)
Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu - cysylltiedig gydag oblygiadau Grant Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
Llesiant - cyfrifoldebau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn ymwneud â chymunedau cysylltiedig a diwallu anghenion
Gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 - adolygu'r 18 mis diwethaf ynghyd â dyletswyddau'n ymwneud â charchardai (Mawrth 2018)
Cynnydd Byrddau Diogelu Rhanbarthol - Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)
Gwasanaeth Integredig Rhanbarthol ar Awtistiaeth
Annual Complaints Report for Social Services

### Craffu gan Aelodau:

Rhoddodd Aelodau'r Pwyllgor Dethol sylwadau fel sy'n dilyn:

- Mae tai yn flaenoriaeth;
- Dywedwyd fod dileu toll Pont Hafren a'r cynnydd dilynol a ragwelir mewn rhenti preifat a phrisiau eiddo yn flaenoriaeth. Bydd pob Pwyllgor Ddethol dan arweiniad Economi a Datblygu yn ystyried hyn.
- Awgrymwyd fod gofal yn y cartref yn bwnc ar gyfer craffu, yn neilltuol, sut y darperir hyn a'r hyfforddiant a dderbyniwyd a throsiant gofalwyr. Cytunwyd y caiff y materion hyn eu hychwanegu at y rhaglen waith fel rhan o ystyried comisiynu gwasanaethau oedolion yn y dyfodol - yn gysylltiedig â "Troi'r Byd â'i Ben i Lawr".

- Gan fod y boblogaeth 65+ yn tyfu'n gyflym, bydd mwy o unigrwydd ac arwahanrwydd ac mae angen dynodi bylchau ar draws y sir na chaiff eu llenwi gan grwpiau gwirfoddol i asesu ble mae angen mwy o ofal. Cytunwyd ychwanegu hyn at y rhaglen waith fel rhan o'r drafodaeth ar Ddatblygu Cymunedol a Llesiant.
- Dynododd Aelod bum thema trosfwaol sy'n effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn nhermau modelau gofal, gwasanaeth ac ansawdd. Gofynnodd pa un oedd y ffordd orau i'r sector cyhoeddus ddefnyddio profiad a galluedd y sector gwirfoddol a phreifat wrth gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau a siaradodd am geisio deall beth yw'r trefniadau comisiynu ac os bydd model darparu arall. Soniwyd am yr angen i ddeall, gan ystyried agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer cydweithredu ac integreiddio, sut i ddarparu gwasanaethau gyda'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Fel canlyniad, tanlinellwyd pa mor bwysig yw hi bod y Pwyllgor Dethol yn trefnu sesiynau gyda'r bwrdd iechyd lleol. Codwyd trefniadau llywodraethiant y dyfodol er mwyn cyflwyno'r cydweithredu fydd ei angen dan y ddeddfwriaeth newydd. Yng nghyswllt gweithlu, siaradodd am yr angen i ddeall galluedd, gofynion ac anghenion o fewn y Sir ac ystyried sut i gydbwyso adnoddau a galw am iechyd a gofal cymdiethasol o gofio am heriau sicrhau newid gwirioneddol p'un ai'n genedlaethol, rhanbarthol neu leol.
  Cyfeiriodd yr Aelod at yr oedi mewn trosglwyddo i ysbyty, deall darpariaeth gwasanaeth cymunedol a mynegodd ddymuniad i ddeall asesiad y Bwrdd Iechyd o bwysau gwasanaeth yng ngoleuni datblygiad yr M4 a dileu tollau Pont Hafren. Soniodd am bwysau gwasanaeth yn ne'r sir a dywedodd fod rhai pobl yng Nghas-gwent yn dewis defnyddio gwasanaethau yn Lloegr. Dywedwyd fod gan y Cyngor Iechyd Cymunedol symiau sylweddol o wybodaeth berthnasol. Er y credid fod cofnodion cyfarfodydd y cyngor iechyd cymunedol yn gaeedig ac nad ydynt ar gael, cytunwyd holi beth yw'r sefyllfa bresennol.

Diffiniodd y Pwyllgor Dethol Oedolion y pynciau ar gyfer craffu yn ôl argymhellion yr adroddiad ac awgrymodd graffu ar ansawdd iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol fel sy'n dilyn:

- Cynllunio, comisynu a darparu gwasanaethau yn y dyfodol a chyfraniad y sector gwirfoddol a'r sector preifat
- Craffu gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar agenda cydweithio/integreiddio Llywodraeth Cymru a chyflenwi gwasanaethau gyda'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol,
- Darpariaeth gwasanaeth cymunedol ac asesiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan o bwysau ar y gwasanaeth,
- Trefniadau llywodraethiant unrhyw fodel cydweithredu yn unol gyda'r ddeddfwriaeth newydd
- Gofynion galluedd gweithlu ac angen o fewn Sir Fynwy

5. **Cyfethol i'r Pwyllgor Dethol Oedolion**

Penderfynwyd gohirio ystyried y mater hwn ac edrych arno eto yn y cyfarfod nesaf.

6. **Camau Gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfod blaenorol**

Mynegodd dau Aelod etholedig bryderon am y Papur Gwyn "Gwasanaethau Addas i'r Dyfodol" a gyhoeddwyd ar 8 Mehefin 2017 yn cyfeirio at rôl Cynghorau Iechyd Cymunedol ar draws Cymru. O gonsyrn neilltuol oedd y cynnig i ddileu mynediad i lais annibynnol i gleifion a

gofynnwyd am gefnogaeth y Pwyllgor. Cylchredwyd papur yn crynhoi'r pryderon. Cytunodd y Pwyllgor fod hwn yn fater difrifol iawn. Cytunodd Aelod ei bod yn ymddangos fod y cynigion yn gwanhau ac nid cryfhau llais cleifion a holodd sut y bydd defnyddwyr gwasanaeth yn adrodd cwynion, gan nodi anfodlonrwydd fod gwariant ar iechyd yn cael ei ostwng yng Nghymru.

Soniwyd am effeithlonrwydd y Gwasanaeth Cynghori a Chydlynu Cleifion (PALS) yn Lloegr. Esboniwyd fod y CHC yn dosbarthu taflenni ond gellid ystyried y dull gweithredu hwnnw fel bod yn un proffil isel.

Mae angen ymateb gan y Cyngor erbyn diwedd mis Medi ac awgrymwyd anfon e-bost at bob Aelod i gael eu barn oherwydd yr amserlen fer, a mynd â hynny at yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Diogelu a Iechyd a bod cwestiwn/cynnig neu eitem agenda yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor i alluogi trafodaeth gyda chefnogaeth lawn y Pwyllgor Dethol yma.

Mynegwyd pryderon pellach nad oedd cofnodion y Cyngor Iechyd Cymunedol ar gael a bod hynny'n atal craffu gan y cyhoedd. Cytunodd y Rheolwr Craffu gylchredeg cofnodion y Pwyllgor Dethol Oedolion ym mis Ebrill pan sefydlir na chaiff cofnodion y Cyngor Iechyd Cymunedol eu cyhoeddi.

**7. Blaenraglen Waith y Pwyllgor Dethol Oedolion**

Trafodwyd y flaenraglen waith yn gynharach yn y cyfarfod.

**8. Blaen-raglen Waith y Cyngor a'r Cabinet**

Nodwyd Blaenraglen Waith y Cyngor a'r Cabinet. Caiff ei e-bostio at yr holl aelodau bob dydd Gwener. Dywedwyd y cynhelir cyfarfod arbennig o'r Cabinet ar 9 Awst 2017.

**9. I gadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf fel Dydd Mawrth 12 Medi 2017 am 10.00am**

**10. Datganiadau o Fuddiant**

No declarations of interest were made.

**11. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2017 eu cadarnhau a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

Yn deillio o'r cofnodion, gofynnodd y Cadeirydd am gadarnhad o'r dyraniad tai fforddiadwy, yn neilltuol lle mae nifer benodol o gartrefi fforddiadwy i gael eu darparu ac a gaiff wedyn eu gwerthu, a holodd os cafodd y ffigurau eu haddasu yn unol â hynny.

**The meeting ended at 11.35 am**